**<u>Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddewis ymgeiswyr i'w penodi gan y Cynulliad neu gan Ei Mawrhydi wedi iddynt gael eu henwebu neu eu hargymell gan y Cynulliad.</u>**

**Cymhwyso'r weithdrefn**

1. Yn amodol ar baragraff 4, mae'r weithdrefn hon yn gymwys os yw deddfwriaeth yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") naill ai i:

   a) enwebu unigolyn neu argymell ei fod yn cael ei benodi i swydd gyhoeddus gan Ei Mawrhydi; neu i

   b) benodi unigolyn i swydd o'r fath ei hun.

2. Mae'r penodiadau cyhoeddus y mae'r weithdrefn hon yn gymwys iddynt ar hyn o bryd, ynghyd ag unrhyw ofynion statudol penodol sy'n gymwys i'r weithdrefn benodi wedi'u nodi yn yr Atodlen.

3. Nod y weithdrefn hon yw sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw ofynion statudol penodol yn ymwneud â'r penodiadau dan sylw. Nid oes unrhyw fwriad iddi addasu neu ddisodli'r gofynion hynny.

4. Er mai Ei Mawrhydi sydd hefyd yn penodi Prif Weinidog Cymru, wedi i'r Cynulliad ei enwebu, nid yw'r weithdrefn hon yn gymwys i'r penodiad hwnnw.

**Amodau a thelerau penodiadau**

5. Rhaid dewis ymgeiswyr i'w penodi ar sail cystadleuaeth deg ac agored ac ar sail teilyngdod.

6. Cyfrifoldeb Clerc y Cynulliad ("y Clerc) yw'r trefniadau ar gyfer dewis ymgeiswyr (gan gynnwys y trefniadau'n ymwneud ag aelodau'r Panel Dethol (gweler paragraff 11 isod).

7. Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ("y Clerc") sy'n gyfrifol am bennu amodau a thelerau'r penodiad.

8. Nid yw paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i bennu holl amodau a thelerau'r penodiad yn llawn wrth wahodd ceisiadau. Mae modd gadael rhai materion yn agored (e.e. cyflog cychwynnol o fewn ystod benodol neu ar lefel fras, neu'r dyddiad y daw'r penodiad i rym) a'u trafod â'r ymgeisydd llwyddiannus er mwyn ystyried ei amgylchiadau personol. Ond, o ran yr amodau a'r telerau a bennir cyn gwahodd ceisiadau, rhaid cynnig yr un rhai i bob ymgeisydd.

9. Bydd ymgeisydd sy'n derbyn yr enwebiad, yr argymhelliad neu'r penodiad (yn ôl fel y bo'n digwydd) felly'n cytuno i dderbyn amodau a thelerau arfaethedig y penodiad, gan gynnwys unrhyw faterion ychwanegol y cytunir arnynt yn unol â pharagraff 8 a, phan gaiff ei benodi, bydd yn ymgymryd â'r swydd dan sylw ar y telerau hynny.

**Y Panel Dethol**

10. Pan fydd swydd yn wag, neu os disgwylir iddi fod yn wag, rhaid sefydlu panel ("Panel Dethol") er mwyn dewis ymgeisydd i'r Cynulliad ei enwebu neu ei argymell i'w Mawrhydi ei benodi neu i'r Cynulliad ei benodi (yn ôl fel y bo'n digwydd) ar gyfer y swydd dan sylw.

**Aelodaeth y Panel Dethol**

11. Rhaid i'r Panel Dethol gynnwys pedwar aelod, sef:

(i) Aelod Cynulliad. Os yw'r penodiad yn ymwneud â chylch gwaith pwyllgor neu bwyllgorau Cynulliad arbennig, fel arfer Cadeirydd y pwyllgor hwnnw (neu un o Gadeiryddion y pwyllgorau hynny) fydd ar y Pwyllgor;

(ii) y Clerc (neu berson a enwebir ganddo);

(iii) person annibynnol ar y Cynulliad sydd ag arbenigedd penodol sy'n berthnasol i'r penodiad;

(v) person annibynnol ar y Cynulliad a ddewisir gan ystyried y safonau cyffredin yng nghyswllt penodiadau cyhoeddus (e.e. yr angen i barchu amrywiaeth ac i sicrhau cyfle cyfartal wrth lenwi swyddi cyhoeddus).

**Enwebu, argymell neu benodi'r ymgeisydd a ddewisir**

12. Os oes gofyniad statudol i ymgynghori â chorff neu gyrff penodol cyn enwebu, argymell neu benodi person (er enghraifft y gofyniad ym mharagraff 1(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol mewn perthynas ag enwebu ymgeisydd i'w benodi'n Archwilydd Cyffredinol Cymru), cyfrifoldeb y Clerc yw sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad cyn gosod cynnig i enwebu, argymell neu benodi person.

13. Yna bydd y Clerc yn gwahodd Aelod Cynulliad (fel arfer, yr Aelod a oedd yn aelod o'r Panel Dethol) i osod cynnig i'r Cynulliad enwebu, argymell neu benodi (fel y bo'n digwydd) yr ymgeisydd a ddewiswyd gan y Panel Dethol. Rhaid i'r cynnig nodi pryd y bydd y penodiad yn dod i rym ac am ba hyd y bydd y sawl a benodir yn dal y swydd.

**Penodiadau**

14. Yn achos penodiadau gan Ei Mawrhydi, bydd y Llywydd yn hysbysu Ei Mawrhydi o enwebiad neu argymhelliad y Cynulliad, (yn unol â'r protocol ar Benodiadau'r Goron a wneir gan Ei Mawrhydi ar sail Enwebiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) (Ionawr 2009) rhwng y Cynulliad a Swyddfa'r Goron). Yna gwneir y penodiad drwy gyhoeddi Gwarant Brenhinol.

15. Yn achos penodiadau gan y Cynulliad, bydd y Clerc yn paratoi dogfen yn cadarnhau'r penodiad i'r Llywydd ei llofnodi.

<u>ATODLEN</u>

Swyddi cyhoeddus y mae'r weithdrefn hon yn gymwys iddynt ar hyn o bryd

| Swydd | Gofynion statudol ychwanegol |
| --- | --- |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | Deddf Llywodraeth Cymru 2006- Adran 145 ac Atodlen 8. |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - Adran 1 ac Atodlen 1. |
| [Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru] | [Mesur Comisiynydd Safonau Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009 - Adran 2 a pharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen] |